Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Bodorgan
Nos Fawrth, 18 o Orffennaf, 2017

Presennol: G. Looms (c), D G Jones, G O Davies, A M Hughes, S Williams, A. Rowlands, Cynghorydd P Rogers â Brian Owen, Rhian Khardani.

Croesawodd y Caderydd pawb i'r cyfarfod ac yn enwedig i Alwyn Rowlands, aelod newydd o'r Cyngor, mae AR wedi arwyddo'r Datganiad Diddordeb ac wedi derbyn y ddogfen 'Code of Conduct'.

Yn bresennol heno roedd Alison, PCSO yr ardal lle cafwyd adborth ganddi ar y mater gor-yrru yn Bethel, mater yma wedi cael ei dynnu i sylw'r Heddlu gan y Cyngor a'r Cyhoedd. Bydd y camera cyflymder yn Mhentref Bethel, 19/07/2017 ac bydd ymweliadau cyfnodol yn cael ei gwneud yn reolaid yn dilyn canlyniadau y camera cyflymder. Ategodd PR/BO ei bod wedi bod mewn trafodaeth gyda'r adran Briffyrdd yn trafod eu pryderon am y gor-yrru yn Bethel. Bydd PCSO Alison yn dod nôl at y Cyngor gyda'r darganfyddiadau yn dilyn y profion gyrru. Diolchodd y Cadierydd i'r PCSO am iddi fynychu.

Eitem		Gweithredu
1.	**Ymddiheuriadau:** Gwen Burns, Myfyr Davies, Gareth Evans	
1b.	**Mr Ian Hughes, Rheolwr Awdit Cymru** Croesawyd Mr Hughes i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a ddangosodd siomedigaeth mai dim ond rhai dyddiau yn ôl cafodd wybod am y gwendid gweinyddiaeth sydd gan y Cyngor. Diolchodd Mr Hughes am y gwahoddiad i ddod i gyfarfod heno a eglurodd ei fod wedi ymweld a Chyngor Llangristiolus lle roedd materion tebyg yn codi. Esbonion Mr Hughes fod UHY Hacker Young cwmni Awdit o Gaer wedi cael ei penodi gan Awdit Cymru ac eu bod wedi pasio'r ffeil ymlaen i Awdit Cymru oherwydd nid oeddynt yn hapus gyda'r mewnbwn yr oeddyn wedi neu ddim yn dderbyn gan Cyngor Cymuned Bodorgan ac felly nid oedd UHY yn gallu cau'r cofnodion am 2013/14 a 2014/15. Pwrpas ymweliad Mr Hughes oedd felly i symud ymlaen a datrys y materion oedd yn codi. Roedd Mr Hughes wedi ceisio trafod y mater gyda'r clerc ers	

	rhai misoedd ond wedi methu cysylltu, roedd y rheswm am hyn wedi cael ei ddarganfod yng nghyfarfod nos Lun, pwysleisiodd Mr Hughes ei bod yn hanfodol bwysig fod gan y clerc gydymffurfiad da gyda'r cwmni awdit. Cytunodd y Clerc bod hyn yn hollol bwysig ac hefyd roedd yr aelodau yn awyddus i'r materion yma gael ei datrys ac fod hyn wedi bod yn wers i pawb ac bod eisiau i'r Cyngor symud ymlaen o hyn a gweithio'n gywir. Yn y cyfarfod cytunwyd: • Byddai'r Clerc yn cofrestru y Cyngor fel cyflogwr gyda'r HMRC • Byddai'r Cyngor yn rhoi ystyried i sefydlu gyda Cyngor Cymuned Llangristiolus ynglyn a chyfrifoldebau i asedion sydd yn cael eu rhannu e.e., y cyfrifiadur (gliniadur). • Bydd trefniadau mwy ffurfiol yn cael ei rhoi mewn lle i gyfrio am incwm sydd yn codi o'r fynwent. • Bydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod blynyddol mis Mehefin i drafod a mabwysiadu'r Annual Return. • Nodwyd bod TAW wedi ei ad ennill yn ddiweddar gan y clerc. Bydd Mr Hughes yn trefnu cael tystysgrif archwiliad a'r gyfrifon 2013/14, 2014/15 Bodorgan cyn gynted a phosib yn dilyn y cyfarfod yma. Diolchodd y Cadeirydd a'r aelodau i Mr Hughes am fynychu a thrafod, hefyd gwerthfawrogwyd hyn gan y clerc. Symud ymlaen • Rhaid tynnhau ar waith papur, hefyd tynhau ar waith papur / rheolau i'r ymgymerwyr am y fynwent, AR am drafod gyda'r clerc y ffordd mae Cyngor Tref Llangefni yn gweithredu gyda'i mynwentydd hwy. • Pwysig bod cyfarfod yn cael ei gynnal mis Mehefin i drafod a mabwysiadau'r adroddiad cyllidol blynyddol. Rhoddwyd llythyr i AMH i'w arwyddo a'i ddanfon i Bank HSBC gyda cyfeiriad newydd y clerc, hyn er mwyn bod y datganiadau banc yn cael ei anfon yn fisol i'r clerc.	
2.	**Datgan diddordeb** – DGJ (Malltraeth Ymlaen) ffurflen datganaid diddordeb wedi chwblhau.	

3.	**Cofnodion Cyfarfod mis Mai2017 – cymeradwyo / materion yn codi.** **Lledaenu'r Lon, Bethel** – mae DGJ ac AR yn cael cyfarfod gyda arweinydd y Cyngor ar y 21ain o Orffennaf, 2017 I drafod y mater. Cyng. P Rogers wedi trafod gyda'r Cyngor hefyd lle cafodd wybod bod y cyngor am edrych ar y sefyllfa ariannol blwyddyn nesaf a gwneud penderfyniad os yw'r gwaith o ledaenu'r lon I fynd ymlaen. **Giat, Plot Gareth Evans** – GL wedi ymweld a'r safle ac wedi cael cyfarfod gyda Tim Bowie, mae Stad Bodorgan yn fodlon gyda'r sefyllfa ac mae GE â Stad Bodorgan wedi cytuno I rannu goriad y clo giat. Mae giat ychwanegol ar y safle (ger y bont) nid yw'r giat yma yn cael llawer o ddefnydd, mae hon wedi bod ar y safle ers pan oedd y cae yn un cae, dim ond I gefn y ty mae mynediad o'r giat yma. **Carafan, Malltraeth** – mae hi dal ar y safle, Cyng, Brian Owen / Peter Rogers yn mynd I drafod gyda Joanne Roberts, Cyngor Sir Ynys Môn. **Parcio, Hermon** – problem o flaen y tai cyngor, Cyng. Rogers wedi ymweld y safle ac wedi trafod gyda'r Cyngor Sir ac nid oes arian I wneud lle parcio ar hyn o bryd. Yr unig ateb ellir gael I'w I rhiwyn arall wneud y gwaith ond problem yw fod rhan fwyaf o'r tai cyngor erbyn nawr wedi ei prynu ac yn dai preifat. Derbyniwyd y cofnodion yn gywir gan: AMH â DGJ yn eilio.	
4	**Taliadau / Payments :** cyflog y Clerc £260 (dau fis), Rospa £79.80, Un Llais Cymru aelodaeth £139.00. **Derbyniadau / Receipts:** R Hughes a'i Fab £40 (Menai Moris Lewis), R Hughes a'I Fab £480.00 (Gladys Goodwin), R Hughes a'I Fab £160 (Gladys Goodwin).	
5	**Gohebaeth gan Cyngor Sir / IOACC correspondence** Pwyllgor Safonau – cynrychiolwyr Cyng Tref a Chymuned ar y pwyllgor – neb gyda diddordeb Cynrychiolaeth ar Gyrff Llywodraethwyr Ysgolion – Cyngor Cymuned – AMH I gario ymlaen fel cynrychiolydd.	

6	**Gohebiaeth Asiantaethau Allanol / Correspondence from outside agencies – er gwybodaeth** Clerks & Council Direct May 2017 Broxap, litter & recycling bins, summer 2017 Un Llais Cymru rhybudd o Pwyllgor Ardal 28/06/2017 – AMH wedi mynychu. Seafarers – Mechant Navy Day 03.09.2017 – rhoddwyd y poster I fynu ar hysbysrwrdd y Ganolfan.	
7	**Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications – er gwybodaeth. Dim sylwadau wedi gwneud.** **15C224/AD** – Cais I lleoli arwydd heb ei oleuo ar dir tu cefn I gilfaen yn Hermon. **15C128D/AD** – Cais I leoli arwydd heb ei oleuo o flaen The Wood Workshop, Bethel. **15C30H/FR** – Cais llawn I newid defnydd tir amaethyddol er mwyn ymestyn y caes carafannau presennol I leoli 14 o garafanau symudol ychwanegol ynghyd a gosod tanc septig ar dir yn Pen y Bont Farm Touring & Camping, Mailtaeth. **15C225/AD** – Cail I leoli arwydd heb ei olwuo ar dir yn Maes Parcio, Malltraeth. **15C219A/LUC/ENF** – cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol o dir a'r gyfer gosod3 carafan statig preswyn yn Garej Tegfryn, Malltraeth. **15El 1532/E** – Cais ar gyfer ail godi llinell drydan 11KV uwchben ddaear ar dir rhwng Malltraeth a Llangaffo. **2015/15/0198** – Apel gan Iolo Owen & Co Ltd, safle Tegfryn, Malltraeth.	
8.	**Penderfyniadau Cynllunio / Planning Decisions – er gwybodaeth**	

9	**Adborth gan y Cynghorwyr Sir / Feedback from the County Councillors** *Cynghorydd B Owen* wedi bod mewn trafodaethau gyda Horizon a teimlad yw fod newid meddwl wedi cael ei wneud gan y Cyngor am yr adeilad newydd, mae meddyliau yn fwy negyddol. Mae Cynghorau Cymuned ochr Ogleddol yr Ynys wedi cael cyfarfod gyda Horizon ac bydd cyfarfodydd eraill yn cymryd lle a bydd Cynghorau Cymuned y Sir yn cael gwahoddiad I'r rhai nesaf, gofynnodd Cyng, B. Owen os fuasai'r Cyngor yma yn anfon cynrychiolydd I'r cyfarfodydd yma, hyn yn bwysig fod trafodaethau yn cael ei cynnal gyda pob cyngor cymuned ac I roi cefnogaeth I Horizon. *Cynghorydd P Rogers:* Bu problem lym ym mhentre Hermon penwythnos ddiwethaf, gwnaed difrod I geir a thai, erbyn hyn mae'r Heddlu yn delio gyda'r mater. Shelter Bws, Mailtraeth a'r ymddygiad gwrthdderbyniol sydd yn cael ei wneud ynddo. Mae'r strythur yno a teimlai fuasi'n syniad da I osod Perspex yno, gofynnodd y Cyng. P Rogers os oedd y Cyngor Cymuned yn fodlon ystyried gosod Perspex wrth mai'r CC sydd berchen y gysgodfan bws. Mi fuasai'r gost o'I adnewyddu yn ddrud iawn, cafwyd awgrym I'r Cyngor ofyn am brisiau gan gwmniau I wneud rhwy fath o waith ar y gysgodfan ohewydd ar hyn o bryd mae'n sefyllfa fregus. AR – gwybodaeth fod un llen o Perspex yn £300. Rhaid I'r cwmniau fod yn gwmniau sydd yn weledig ar wneud gwaith fel hyn, crybwyllwyd D U Construction a Dewi Hughes, Cyng. P Rogers am drafod gyda'r cwmniau am brisiau a'r math o waith a ellir ei wneud I wella'r sefyllfa.	
10	**Unrhyw Fater Arall** **G.O.D.** – Mae rhaid gwneud rhwybeth am gyffordd Cefn Dderwen / Carreg Ceiliog Bach, bu bron I ddarnwain ddigwydd yno wythnos diwethaf, hyn yn digwydd yn aml ac mae rhaid cael datrysiad I geir peidio a pharcio a chuddio'r gyffordd fel ei bod yn annodd I ddefnyddwyr ddod I'r lon. Mae D U Construction gyda safle waith ger y Feddygfa ar hyn o bryd, a fusai'r safle yma yn gallu cael ei wneud yn safle parcio, ategwyd mai dim y Feddygfa sydd berchen y llecyn yma, Cwmni Iolo Owen sydd ei berchen. Cynghorydd Peter Rogers a Brian Owen am edrych mewn I'r sefyllfa.	

	Adroddiad Rospa Mehefin 2017 – ar hyn o bryd mae'r safle yn saff, yn risg isal. Pryder gan y Cadeirydd nid yw'r adroddiad yma yn adroddiad dda ac hefyd teimlai os buasai damwain ni fuasai'r cwmni yswiriant yn talu allan, teimlai bod angen monitro'r ardal yn reolaidd sef misol, angen rhiwin i wirfoddoli i wneud y goruchwylio hyn, oll fuasai angen bysai llyfr gyda chofnod bod y safle wedi cael ei wneud, 'visual check' mewn ffordd. Cyflwynodd AR ddogfen y mae ef yn ddefnyddio gyda Cyngor Tref Llangefni i oruchwylio parciau chwarae ac mae hi yn ddogfen gyfreithiol. Teimlai y Cadeirydd fuasai cael gwneud ymweliad ar y safle yn fison yn arfer da a buasai'r cwmni yswiriant yn derbyn hyn.	
11.	**Dyddiad Cyfarfod Nesaf : 118 / 08 / 2017 am 7yh.**	